Deall Dyneiddiaeth

# BETH YW NODAU DYNEIDDIAETH AR GYFER CYMDEITHAS?



Mater i ni yw gwneud y byd yn lle gwell. Os ydym ni eisiau i bethau wella, mae angen i ni ei wneud ein hunain, tra bod gennym ni'r cyfle. Ein **cyfrifoldeb** ni ydyw.

ALEX

Dyma'r unig fywyd sydd gennym ni. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gefnogi tegwch a hapusrwydd yn **y presennol**. Mae angen i ni **weithredu**. Ni allwn ni wneud popeth ar ein pen ein hunain, ond gallwn ni i gyd helpu i wneud gwahaniaeth.



GUY



Rydym ni i gyd eisiau bod yn **rhydd** i ddewis sut yr ydym yn byw. Rydym ni i gyd yn dymuno cael ein trin yn **deg** ac **yn garedig**. Felly os ydym ni'n hyrwyddo'r nodau hyn, yna bydd bywyd yn well i bawb.

LAUREN




Gall cydnabod ein bod ni i gyd yn ddynol ein helpu i weld y dylem ni drin pobl **yn gyfartal**. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a'u bod yn cael y cyfleoedd i fyw eu bywydau fel y byddan nhw'n ei ddymuno.

LINDSAY

**Dylem ni i gyd gael y rhyddid i gredu'r hyn yr ydym yn dymuno ei gredu a dweud yr hyn yr ydym yn dymuno ei ddweud. Dylai fod gennym ni i gyd yr hawl i ofal iechyd, i addysg, i gael caru a phriodi pwy yr ydym ni'n dymuno, a chael dweud ein dweud ynghylch sut y caiff ein gwlad ei chynnal.**



IAN



Os ydym ni i gyd yn rhydd i gredu'r hyn yr ydym yn ei ddymuno ac yn cael ein trin yn deg, yna rydym ni'n debygol o fod yn **hapusach** a byw gyda'n gilydd yn fwy **heddychlon**.

JULIAN

© HUMANISTS UK 2021